

Sancteiddrwydd

Yn y Testament Newydd mae sancteiddrwydd yn golygu ymagor yn llawn i fywyd Iesu ei hun a chaniatáu i'w fywyd ef ein llenwi a'n meddiannu'n gyfan gwbl. Mae Iesu hanes yn dod yn Grist profiad, mae'n dod yn berson byw personol ac yn gydymaith ar daith bywyd.

EMYNAU

Mae'r nefoedd a'r ddaear yn cydnabod dy sancteiddrwydd di:

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd, Dduw hollalluog,
 datgan nef a daear eu mawl i'th enw di;
 sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd, cadarn a thrugarog,
 Trindod fendigaid yw ein Harglwydd ni.

Reginald Heber *cyf. Dyfed (Caneuon Ffydd: 42)*

Yr un wyt ti ddoe, heddiw ac yfory yn ysblander dy sancteiddrwydd:

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd yw ein Duw,
 sanctaidd yw yr Arglwydd hollalluog;
 sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd yw ein Duw,
 sanctaidd yw yr Arglwydd hollalluog,
 'r hwn fu, ac sydd, ac eto i ddod,
 sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd yw ein Duw.

Anad. *cyf. Arfon Jones (Caneuon Ffydd: 55)*

Am ei waith yn creu a'i waith yn achub sancteiddier enw Duw:

Duw mawr y nefoedd faith,
 mor bur, mor dirion yw,
 mor rhyfedd yw ei waith
 yn achub dynol-ryw:
 sancteiddier enw'r Arglwydd Iôr
 drwy'r ddaear faith a'r eang fôr.

Y Diwygiwr *efallai gan* D. Silvan Evans (*Caneuon Ffydd: 174*)

Y dihalog, y glân a'r sanctaidd wyt ti:

Ti, O Dduw, yw'r Un dihalog,
 ti yw'r glendid sy'n parhau,
 eiddot ti yn dy sancteiddrwydd
 ydyw'r wedd sy'n bywiocáu;
 Iôr anfeidrol,
 gwynfydedig wyt erioed.

Trebor Roberts (*Caneuon Ffydd*: 177)

Er fy mod ymhlith pobl halogedig eto galw fi i weithredu drosot ti:

Arglwydd sanctaidd, dyrchafedig,
 wrth dy odre plygaf fi,
 ni ryfyga llygaid ofnus
 edrych ar d'ogoniant di.
 Halogedig o wefusau
 ydwyf fi, fe wŷr fy Nuw,
 ymysg pobol halogedig
 o wefusau 'rwyf yn byw.

O. M. Lloyd (*Caneuon Ffydd*: 187)

Plygwn yn ein haddoliad i'th gydnabod di yn Dduw sanctaidd:

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd,
 mae 'nghalon yn d'addoli,
 a hyn a wŷr, a hyn a ddwed:
 sanctaidd wyt, O Dduw.

Gweddi o Ariannin (*Caneuon Ffydd*: 227)

GWEDDIAU**Ti y sanctaidd Un, ein dymuniad yw cael ein sancteiddio:**

Dyma'n gweddi ni, Arglwydd, wrth i ni nesáu mewn llawn hyder ffydd atat Ti. Ein dymuniad yw ar i ni gael ein sancteiddio ynot Ti, oherwydd gwyddom mai i Ti yn unig y perthyn gwir sancteiddrwydd. Amen.

Iwan Ll. Jones

Ysbryd sanctaidd Duw, llwyr feddianna di fy mywyd:

Ysbryd Sanctaidd Duw, ymwêl yn awr â'm henaid, ac aros yno hyd yr hwyr. Ysbrydola fy holl feddyliau. Treiddia drwy fy holl ddychmygion. Cyfarwydda fy mhenderfyniadau. Trig yn eithafion fy enaid, a threfna fy holl weithredoedd. Amen.

John Baillie

Diolch am yr Efengyl sanctaidd sy'n trawsffurfio ac yn adnewyddu:

Clodforwn dy enw o'r newydd am efengyl ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist; yr efengyl sy'n trawsffurfio ac yn adnewyddu ein meddwl, a'n galluogi i ganfod yr hyn sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn dy olwg. Bendigwn dy enw sanctaidd am i ti yn dy drugaredd ein geni ni i fywyd newydd yng Nghrist, ac am i ti drwy ei allu dwyfol ef roi i ni bob peth sy'n angenrheidiol ar gyfer gwir grefydd. Amen.

Dewi Roberts

Darostwng ni a gogwydda ein bywydau tuag atat ti a boed i ti ein sancteiddio:

O Arglwydd, lladd yn llwyr y pechod sy'n barod i'n hamgylchu; rho ffrwyn ar ein chwantau annuwiol; atal y meddwl drygionus; pura'r tymer; rheola'r ysbryd a chywira'r tafod; gogwydda ein hewyllys a'n haddoliad atat ti, a sancteiddia a darostwng ni. Amen.

Richard S. Brooke *cyf.* Lewis Valentine

Sancteiddia ni'n gyfan, gorff, meddwl ac ysbryd:

Caniatâ i ni ymhob peth ymddwyn yn deilwng o'n Creawdwr, a gweision yr Arglwydd. Gwna ni'n ddiwyd i wneud ein gwaith, yn effro i

demtasiynau, yn bur ac yn gymedrol yn yr hyn sy'n rhoi mwynhad i ni. Sancteiddia ni oll, yn gorff, meddwl ac ysbryd, fel y'n cedwir yn ddi-fai yn nyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist; i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân y byddo'r anrhydedd a'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

Thomas à Kempis

ADNODAU

Dyhead y Cristion yw ymrymu a chrynu o flaen Duw yn ei sancteiddrwydd:

Rhowch i'r ARGLWYDD anrhydedd ei enw,
dygwch offrwm a dewch o'i flaen.
Ymgrymwrch i'r ARGLWYDD yn ysblander ei sancteiddrwydd.
Crynwch o'i flaen, yr holl ddaear;
yn awr y mae'r byd yn sicr, ac nis symudir.

1 Cronicl 16: 29–30

Gan fod Duw yn sanctaidd mae'n galw arnom ninnau i'w efelychu:

Eithr fel yr Un Sanctaidd a'ch galwodd chwi, byddwch chwithau yn sanctaidd yn eich holl ymarweddiad. Oherwydd y mae'n ysgrifenedig, "Byddwch sanctaidd, oherwydd yr wyf fi yn sanctaidd."

1 Pedr 1: 15–16

Yn ystod ei alwad ymdeimlo â sancteiddrwydd Duw a wnaeth Eseia:

Yr oedd y naill yn datgan wrth y llall,
"Sanct, Sanct, Sanct yw ARGLWYDD y Lluoedd;
y mae'r holl ddaear yn llawn o'i ogoniant."

Eseia 6: 3

Mae Pedr yn atgoffa'r bobl eu bod wedi gwadu'r Un sanctaidd a chyfiawn ac wedi rhyddhau llofrudd:

Eithr chwi, gwadasoch yr Un sanctaidd a chyfiawn, a deisyf, fel ffafir i chwi, ryddhau llofrudd.

Actau 3: 14

Mae Paul yn awyddus iawn i dderbyn y Cenhedloedd dan deyrnasiad Crist:

Os yw'r gwreiddyn yn sanctaidd, y mae'r canghennau hefyd yn sanctaidd.

Rhufeiniaid 11: 16 (b)

Y mae Duw yn ei sancteiddrwydd yn trigo ymhob un ohonom:

Os bydd rhywun yn dinistrio teml Duw, bydd Duw'n ei ddinistrio yntau, oherwydd y mae teml Duw yn sanctaidd, a chwi yw'r deml honno.

1 Corinthiaid 3: 17

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Beth ydi'r amodau sy'n help i ni deimlo sancteiddrwydd Duw? Ysbryd ac awyrgylch dawel, meddwl pur a thymher hynaws ac addfwyn. Pan roir lle i'r pethau hyn, bryd hynny yr amlygir presenoldeb a sancteiddrwydd Duw.

Yn y Testament Newydd, 'Sant' yw un sydd wedi ei 'neilltuo' neu ei 'wahanu', ac ar yr un pryd wedi ei buro i fod yn gymwys i'r gwaith.

Yr Ysbryd Glân yw'r Sancteiddiwr, a'r Ysbryd hwn sy'n neilltuo ac yn galw pobl ar gyfer tasgau arbennig.

Pan fyddwch yn gweddïo, bydd Ef (Yr Ysbryd Glân) ym mhob gair, ac fel Tân Sanctaidd yn treiddio trwy bob gair.

Ioan o Kronstadt

Y mae sancteiddrwydd Duw yn gyfuniad o'i ddaioni perffaith a'i brydferthwch digymar, a hynny'n ei wneud yn uwch ac yn gwbl ar wahân i ni. Ond er creu ynom ymdeimlad o arswyd a pharchedig ofn, nid ein dychryn a'n pellhau a wna sancteiddrwydd Duw, ond ein denu, ein hennill a'n gwahodd i gyfranogi ohono.